**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16eg Tachwedd 2009**

**YR OPSIYNAU AR GYFER CYLLIDEB 2010/11**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y pwysau fydd ar gyllideb yn 2010/11, a'r cynnydd a wneir i ariannu'r pwysau hyn trwy ffyrdd heblaw cynyddu'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol.

2 Mae'n rhestru rhai o'r opsiynau y gallai'r Aelodau ddewis o'u plith wrth lunio'r gyllideb refeniw a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr.

## Gwybodaeth

3 Mae pedwar pwysau allweddol ar y gyllideb i'w hystyried:

4 **Cyflogau.** Mae'r dyfarniadau cyflog yn cael eu negodi a'u cytuno ar lefel genedlaethol. Gall fod yn anodd rhagweld y dyfarniad ryw wyth mis o flaen llaw. Ar gyfer cyllideb 2009/10, cafodd amcangyfrif o 2.5% ei gynnwys. Ar ddiwedd y broses negodi, cytunwyd ar 1.25% i ddiffoddwyr tân a staff yr ystafell reoli, a 1% i weithwyr eraill. Mae hyn yn golygu bod digon bron yn y gyllideb sylfaen i ariannu dyfarniad tebyg yn 2010/11. Ar linellau gwariant cyflogau, dim ond cynnydd o £66,000 fydd ei angen.

5 Efallai y byddai'r Aelodau'n dymuno ystyried p'un a fydd y dyfarniadau cyflogau ar gyfer 2010/11 yn debygol o fod yn uwch, yn is neu'n debyg i eleni.

6 Mae'r Prosiect Gwerthuso Swyddi ar gyfer staff yr ochr gefnogol bron â chael ei gwblhau, a'r gobaith yw anfon y canlyniadau i bob gweithiwr yn y flwyddyn newydd. Gellir cwrdd ag unrhyw ôl-daliadau a thaliadau diogelu cyflog o'r ddarpariaeth o £169,000 a gafodd ei chreu trwy reoli llinellau gwariant eraill.

7 Mae angen penderfynu p'un ai i ymgorffori pum swydd yn gyllideb sylfaen nad oedd yn rhan o'r nifer wreiddiol. Byddai hyn yn golygu cynnydd o £128,000.

8 **Pwysau Newydd.** Yn y papur blaenorol, mynegwyd pryder nad oedd y costau sydd eu hangen i ariannu Firelink, y system radio newydd, yn hysbys. Mewn llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 2[il] Hydref 2009, cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wybod bod Llywodraeth y Cynulliad yn barod i ariannu, nid yn unig y rhan fwyaf o'r costau cyfalaf, ond hefyd y costau refeniw sy'n gysylltiedig â rhedeg Firelink yn 2009/10 a 2010/11, a thu hwnt o bosib.

9 Ar y cyd â'r system radio newydd, mae nifer o brosiectau TGCh rhyng-gysylltiedig, a'r rheini i wella'r modd y mae gwybodaeth risg-gritigol yn cael ei throsglwyddo i ddiffoddwyr tân, a'r modd y mae diogelwch cymunedol yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd. Mae'r prosiectau hyn yn gofyn am fuddsoddiad refeniw o £541,000.

10 **Chwyddiant.** Mewn papurau blaenorol, defnyddiwyd y gyfradd ar gyfer chwyddiant cyffredinol yn yr holl linellau gwariant. Efallai y bydd yr Aelodau'n penderfynu y byddai'n beth darbodus i gynnwys swm ar gyfer chwyddiant cyffredinol, neu efallai y byddant yn dymuno cynnwys pwysau chwyddiant hysbys penodol, megis costau tanwydd ac ynni, sydd yn £70,000.

11 **Taliadau Cyfalaf a Phrydlesau**, nid oes modd eu hosgoi gan eu bod yn ganlyniad penderfyniadau a wnaed yn gynharach ynglŷn â chyfalaf. Ar gyfer 2010/11, y cynnydd sydd ei angen yw £260,000. Mae hyn yn cael ei ategu gan ostyngiad mewn llog a ddaw o arian mewn cyfrifon cadw, ac mae disgwyl i hwnnw fod yn £175,000.

12 I gloi, wrth osod y gyllideb ar gyfer 2010/11, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wynebu nifer o bwysau costau na

ellir eu hosgoi. Un o’r pwysau dewisol prin yw hwnnw sy’n ymwneud â’r buddsoddiad sydd ei angen i wella’r seilwaith TGCh. Gan nad oedd y setliadau Grant Cynnal Refeniw drafft ar gyfer Gogledd Cymru cynddrwg ag y disgwylir y byddant ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gallai Aelodau benderfynu cymryd y cyfle hwn i fuddsoddi’n y systemau risg-gritigol hyn tra bo dal cyfle i wneud hynny.

## Argymhelliad

13 Gofynnir i’r Aelodau:

(i) nodi’r pwysau uchod, a allai fod yn rhan o gyllideb refeniw’r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2010/11;

(ii) mynegi pa ragdybiaethau o ran cynllunio y byddent hwy’n dymuno ei weld yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb.